



Tread and Trot Trotian a Throedio

Monmouthshire / Sir Fynwy

Dingestow Discoveries

Darganfod Llanddingad



Try our phone app:
treadandtrottrails.co.uk
Triwch ein rhaglen ffôn

Dingestow discoveries!

5.5 m / 9 km

**3 - 3.5 hours (walking time) or
2 shorter family friendly walks**

This is one in a series of three trails designed for walkers, horse riders and mountain bikers to explore our fabulous Monmouthshire countryside.

Enjoy spectacular views towards the Black Mountains and Brecon Beacons, keep your eyes peeled for lots of wonderful wildlife, and discover hidden heritage along the way.

This is a moderately hilly route, using a mixture of green lanes, forestry tracks, fields and tarmac lanes. The route can be shortened to create 2 family friendly shorter walks – see map. The route is way-marked - look out for these → along the way. You can start the trail at any point and follow it in either direction (directions given in this leaflet follow a clockwise route). Numbers on the map relate to numbers in the text.



Try out our family Explorer Backpacks. They're packed with ideas to entertain the family along the way. Pick them up at Dingestow Post Office, Bridge Campsite (1) or Whitehill Farm. (2)

Look out for 'hot spots' where you can download information on your phone too.

Darganfod Llanddingad!

5.5m / 9 km

**3.5 awr neu ddwy daith gerdded
fyrrach addas i deuluoedd**

Dyma un o dri llwybr sy'n addas i gerddwyr, marchogwyr a beicwyr mynydd sydd am archwilio cefn gwlad godidog Sir Fynwy.

Gallwch fwynhau golygfeydd gwych o'r Mynydd Du a Bannau Brycheiniog, gan gadw llygad am fywyd gwylt hyfryd o bob math, a darganfod treftadaeth gudd ar hyd y ffordd.

Mae'r llwybr yn serth mewn mannhau, ac yn gyfuniad o lonydd gwyrdd, traciau coedwig, caeau a lonydd tarmac. Gellir byrhau'r llwybr i greu dwy daith addas i deuluoedd – gweler y map. Mae yna arwyddion ar y llwybr felly cadwch lygad am y symbolau hyn ar hyd y ffordd. Gallwch ddechrau yn rhywle a mynd i'r naill gyfeiriad neu'r llall (mae'r cyfarwyddiadau yn y daflen hon yn dilyn llwybr cloedd). Mae'r rhifau ar y map yn cyfateb i'r rhifau yn y testun.



Beth am roi cynnig ar Explorer Backpack i deuluoedd? Mae'n llawn syniadau i gadw'r teulu'n ddiwyd ar hyd yn daith. Gallwch gael un yn Swyddfa Bost Llanddingad, Maes Gwersylla'r Bridge (1) neu Fferm Whitehill. (2)

Cofiwch y gallwch lawrlwytho gwybodaeth i'ch ffôn mewn ambell le ar y daith hefyd.

(1) Bridge Caravan and Campsite. Dingestow.

Originally a coaching inn on the track from Monmouth, via Wonastow and Jingle Street to Raglan, travellers could stay and rest at Bridge Farm, and horses could be changed. More recently Bridge Farm was a dairy farm before becoming a campsite.


Local tradition has it that nearby Jingle Street takes its name from the sound of bells jingling on the harnesses of passing horses.

This photo shows horses and carriage travelling through the nearby Hendre Estate, home of Lord Llangattock, at the turn of the 20th century.
(Nelson Museum and Local History Centre, Monmouth)



Walk away from the village and over the River Trothy. (2)

You might spot a dipper, or if you are really lucky an otter or mink, which have been seen along the river.



(1) Gwersyll a Maes Carafannau'r Bridge, Llanddingad.

Yn wreiddiol, tafarn i'r goets fawr ar y llwybr o Drefynwy trwy Lanwarw a Jingle Street i Raglan oedd yma; gallai teithwyr aros a gorffwys yn Bridge Farm, a gellid newid ceffylau yno. Yn fwy diweddar, fferm laeth oedd Bridge Farm cyn iddi droi'n faes gwersylla. Yn ôl y sôn, cafodd Jingle Street ei henw diolch i sŵn y clychau'n tincial ar harneis i'r ceffylau wrth iddynt fynd heibio.

Dengys y llun hwn geffyl a choets yn teithio drwy Ystâd yr Hendre gerllaw, sef cartref Arglwydd Llangattock, ar droad yr ugeinfed ganrif.
(Amgueddfa a Chanolfan Hanes Lleol Nelson, Trefynwy)

Cerddwch oddi wrth y pentref a thros yr Afon Troddi. (2)

Efallai y gwelwch chi drochwr, neu hyd yn oed ddyfrgi neu finc, sydd wedi'u gweld ar lan yr afon.



(3) Turn left after the bridge up into Mill Wood (not down private drive to Mill Farm) following the bridleway sign through the wood.



Many people have enjoyed the trees in this ancient woodland, which has probably been here since the 1600s. (Some people have left their mark, not unlike the woodpeckers you might spot here too).

Go through the gate (4) into the field and walk diagonally uphill across the field, and slightly to your right. Pass through another gate and continue straight across the field heading for some farm buildings (one has a red roof) in the distance.



(3) Trowch i'r chwith ar ôl y bont i fyny i Mill Wood (nid i lawr y lôn breifat i Mill Farm) gan ddilyn arwydd y llwybr marchogaeth trwy'r goedwig.

Ewch drwy'r glwyd (4) i'r cae a cherddwch i fyny ar draws y cae ac ychydig i'r dde. Ewch trwy glwyd arall ac yn syth ar draws y cae tuag at adeiladau fferm yn y pellter (mae gan un do coch).

Mae llawer o bobl wedi mwynhau'r coed yn yr hen goetir hwn, sydd yma ers y 1600au fwy na thebyg. (Mae rhai pobl wedi gadael eu marc, fel y gwna cnocell y coed, sydd i'w gweld yma weithiau).



Go through the gate (5) onto the drive to Treowen House and turn left, walking past a pond and horse chestnut tree on your right.

The view here includes four mountains; from left to right the Blorenge, the Sugar Loaf, Skirrid and Hay Bluff.


Keep on this track past the magnificent 17th century mansion of Treowen. (6)

Look out for mistletoe, topiary balls and a tree that's probably as old as the house.

Built in 1627, Treowen, which is four storeys high, may be the tallest house in Monmouthshire. It has wood panelled rooms and a magnificent oak staircase and enough space for 30 guests!

(5) Ewch trwy'r glwyd i rodfa Tŷ Treowen a thro i'r chwith, gan gerdded heibio llyn a chastanwydden ar y dde.

Mae'r olygfa yma yn cynnwys pedwar mynydd. O'r chwith i'r dde, y Blorens, Pen-y-Fâl, Ysgyryd Fawr a Phenybegwn.



Cadwch ar y llwybr hwn heibio plasty godidog Treowen sy'n dyddio o'r 17eg ganrif. (6)

Cadwch lygad am uchelwydd, tocwaith a choeden sydd gyn hyned â'r tŷ yn ôl pob tebyg.

Mae'n bosib mai Treowen, y plasty pedwar llawr a adeiladwyd ym 1627, yw'r tŷ talaf yn Sir Fynwy. Mae yna baneri pren yn ei ystafelloedd, grisiau derw ysblennydd a digon o le i 30 o westeon!

Keep on this track passing some farm buildings on the left (7). Straight after the buildings take the track on the left, through Treowen Wood to a wooden field gate (8), framing a fantastic view, stretching from the Blorenge to Hay Bluff.




Pass through the gate and head across the field to another gate (9). Walk downhill to the river (10). Keeping the river to your left continue until you reach the footbridge, turn with your back to the footbridge and head across the same field to the gate opposite.


Gan gadw ar y llwybr hwn, ewch heibio adeiladau fferm ar y chwith (7). Yn syth ar ôl yr adeiladau dilynwch y llwybr ar y chwith, trwy Goed Treowen at glwyd bren i'r cae (8) lle mae golygfa odiog yn ymestyn o'r Blorens i Benybegwn.

Ewch drwy'r glwyd ac ar draws y cae at glwyd arall (9). Cerddwch i lawr at yr afon (10). Gan gadw'r afon ar y chwith, dilynwch hi at bompren, trowch gyda'ch cefn at y bompren ac ewch ar draws yr un cae at y glwyd gyferbyn..

Sugar Loaf / Pen-y-fal




Skirrid /
Ysgyryd Fawr





Pass through the gate, over the concrete culvert and follow the old track up and around the bank and down to the field gate. Go through the gate and carry straight on keeping the hedge to your left. Look out for a pond in the field on your left where you may spot a heron (11). Carry on alongside the hedge, through rolling pastureland where cattle often graze, passing through several more gates until reaching the road at Lower Hendre (12).



How the milk used to be delivered from Perthyre Dairy at Rockfield, on the other side of Kings Wood.
(Nelson Museum and Local History Centre, Monmouth)

Ewch drwy'r glwyd, dros y geuffos goncrid a dilyn yr hen lwybr i fyny ac o gwmpas y clawdd ac i lawr at glwyd y cae. Ewch drwy'r glwyd ac yn syth ymlaen, gan gadw'r berth ar y chwith. Cadwch lygad am bwll yn y cae ar y chwith - efallai y gwelwch chi grëyr glas (11). Dilynwch y berth, trwy dir pori lle mae gwartheg yn pori'n aml, gan fynd trwy sawl clwyd arall tan i chi gyrraedd y ffordd ger Hendre Isaf (12).

Dosbarthu llaeth ers talwm o Laethdy Perthyre, Rockfield, yr ochr draw i Kings Wood.
(Amgueddfa a Chanolfan Hanes Lleol Nelson, Trefynwy)

At the road go right. At the brow of the hill leave the road as it bears to the right around Lower Hendre Farm, and take the track on the left marked Offa's Dyke (13).



Offa's Dyke was a ditch and rampart earthwork, built by King Offa over 1200 years ago. It formed a boundary between Offa's kingdom of Mercia (in England) and Wales, stretching

from Prestatyn in north Wales to Sedbury near Chepstow in the south.

Ar ôl cyrraedd y ffordd, ewch i'r dde. Ar ael y bryn gadewch y ffordd wrth iddi droi tua'r dde ger Fferrt Hendre Isaf, a dilynwch y llwybr ar y chwith ag arwydd Clawdd Offa (13).

Roedd Clawdd Offa yn ffos a rhagfur a adeiladwyd gan y Brenin Offa dros 1200 o flynyddoedd yn ôl. Dyma'r ffin rhwng teyrnas Offa o Fersia (yn Lloegr) a Chymru, yn ymestyn o Brestatyn yng ngogledd Cymru i Sedbury ger Cas-gwent yn y de.



The route follows part of the 177 mile long Offa's Dyke Path National Trail, which passes through Monmouthshire here.

Mae'r llwybr yn dilyn rhan o Lwybr Cenedlaethol 177 milltir Clawdd Offa yn aur, sy'n mynd trwy Sir Fynwy fan hyn.

(Rob Dingle)

Continue straight on along the track, passing the Forestry Commission barrier, for approximately 1 mile until you reach an open junction of paths (14).

Much of King's Wood is ancient woodland. The native deciduous trees you can see here - oak, ash, willow, and hazel - don't die when you cut them down. The stump of the tree sends up new shoots which become many smaller trunks; these can be cut back time and time again. This is called coppicing. This process provided a valuable supply of wood for building, fencing, heating and for use in the local iron industry in the past. Today charcoal is one of the main products of coppiced wood. Dormice especially like to live in this ancient woodland. You may also see fallow deer.

On the far side of King's Wood is The Hendre estate, once the family home of Charles Rolls, co-founder of Rolls Royce. This mansion has witnessed many different forms of arrival, by horse and carriage, bicycle, hot air balloon and, of course, Rolls Royce. Local tradition has




16

Ewch yn syth ar hyd y llwybr, heibio rhwystr y Comisiwn Coedwigaeth, am tua milltir tan i chi gyrraedd cyffordd yn y llwybr (14).

Mae llawer o Kings Wood yn goetir hynafol. Nid yw'r coed colldail brodorol a welwch yma, sef derw, ynn, helyg a chyll yn marw wrth eu torri i lawr. Mae bonyffion y coed yn tyfu egin newydd sy'n tyfu'n sawl coeden lai; gellir torri'r rhain dro ar ôl tro; bondocio yw'r enw ar hyn. Byddai hyn yn darparu ffynhonnell werthfawr o goed ar gyfer adeiladu, ffensiwr, gwresogi ac at ddefnydd yn y diwydiant haearn lleol yn y gorffennol. Heddiw, siarcol yw un o brif gynhyrchion coed wedi'u bondocio. Mae'r pathew wrth ei fodd yn y math hwn o goetir hynafol. Gallech hefyd weld yr ewig llwyd.

Tu hwnt i King's Wood mae ystâd yr Hendre a fu unwaith yn gartref i deulu Charles Rolls, cyd-sylfaenydd Rolls Royce. Mae'r plasty hwn wedi gweld tipyn o fynd a dod, gyda cheffyl a choets, ar



**Lady Llangattock at The Hendre
Arlwyddes Llangattock yn yr Hendre
(Nelson Museum and Local History Centre, Monmouth /
Amgueddfa a Chanolfan Hanes Lleol Nelson, Treftadaeth)**

17

it that King's Wood is named after Royal visitors entertained here, but it is more likely to be a much earlier king who is referred to!


The Rolls family also owned Amberley Court on the other side of King's Wood. This was Lord Llangattock's shire horse stud farm where magnificent shire stallions, such as Prince Harold, (right) were kept. Harold was purchased for £2650 in 1895 (more than £160,000 today,) 'to further the breeding of the best and heaviest type of draft horse, especially in Monmouthshire'.



gefn beic, balwn aer poeth ac wrth gwrs, mewn Rolls Royce. Yn ôl y sôn yn lleol, cafodd King's Wood ei enw ar ôl i ymwelwyr Brenhinol ddod yno, ond mae'n llawer mwy tebygol mai brenin cynharach o lawer y cyfeirir ato!

Roedd Amberley Court, yr ochr draw i King's Wood, yn eiddo i'r teulu Rolls hefyd. Dyma oedd gre ceffylau gwedd Arglwydd Llangattock lle cedwid stalwyni gwedd, fel Prince Harold (chwith). Prynwyd Harold am £2,650 ym 1895 (mwy na £160,000 heddiw) er mwyn bridio'r ceffyl tynnu trymaf a gorau, yn enwedig yn Sir Fynwy.





At the junction (14) turn right taking the main forest road and continue straight uphill until the next right turn (15). Turn right following the forest track through Whitehill Wood until reaching a gate leading out of the wood (16).

You may be able to spot the wooden tower of St. Wonnow's church below you to your left. Horses were stabled in the church during the Civil War when Parliamentarian troops were garrisoned next door at Wonastow Court, the home of Parliamentarian supporter John Millborne. On a clear day you might also see the flag flying on Raglan Castle, away to your right. For two long months in the summer of 1646 the castle was besieged by Parliamentarians.

Despite their attempts to demolish it during the Civil War, much of it still stands today, and it remains 'beyond question, the most picturesque and beautiful ruin in the kingdom.'



A Civil War Musketeer. (From Hall, 1861) / Myrchedwr o'r Rhyfel Cartref. (o Hall, 1861))



Yn y gyffordd (14) trowch i'r dde gan ddilyn prif ffordd y goedwig yn syth i fyny nes cyrraedd y tro nesaf ar y dde (15). Trowch i'r dde gan ddilyn llwybr y goedwig trwy Goetir Whitehill nes cyrraedd clwyd sy'n arwain allan o'r goedwig (16).

Efallai y gwelwch chi dŵr pren eglwys Sant Wonnow islaw ar eich chwith. Defnyddiwyd yr eglwys fel stablau i'r ceffylau yn ystod y Rhyfel Cartref pan oedd milwyr seneddol drws nesaf yn Wonastow Court, cartref John Millborne, cefnogwr y seneddwyr. Ar ddiwrnod clir, efallai y gwelwch y faner ar gastell Rhaglan, draw ar y dde. Am ddeufis hir yn haf 1646 roedd y castell dan

warchae'r Seneddwyr, ac er gwaethaf eu hymdrehion i'w ddymchwel yn ystod y Rhyfel Cartref, mae llawer ohono wedi goroesi hyd heddiw, a heb os dyma'r adfail



harddafa mwyaf deniadol yn y deyrnas.

Continue downhill through the farmyard, passing Whitehill Farm (17) on the right. Turn right onto the lane (18).

Follow this country lane downhill and look out for the tiny Primitive Methodist Chapel of Gwern-y-Saint (19), built in 1850. It's tucked away behind a yew tree on the right, just before the first house on the right.

Feeding the Lambs at White Hill in the 1950s.

Bwydo'r wlyn yn White Hill yn y 1950au.



Ewch i lawr drwy fuarth y fferm, heibio i Fferm White Hill (17) ar y dde. Trowch i'r dde, i ymuno â'r lôn (18).

Dilynwch y lôn wledig hon i lawr yr allt a chofio edrych am gapel cyntefig bychan y Methodistiaid, Gwern-y-saint (19), a adeiladwyd ym 1850. Y mae'n swatio y tu cefn i ywen ychydig cyn y tŷ cyntaf ar y dde.

White Hill Farm in the 1940s and 50s
Fferm White Hill yn y 1940au a'r 50au

(Photos reproduced with the kind permission of Shirley Hughes / Argyrhyrchwyd y lluniau dirwy garedigirwydd Shirley Hughes)

Sunday best at Gwern-y-Saint Sunday School in the 1950s.
Pawb yn eu dillad gorau yn Ysgol Sul Gwern-y-saint yn y 1950au.

Continue along this lane until you reach a left turn down a farm track (20). Take this track and continue past two cottages until you reach farm buildings on the right at Treowen (7). Keep straight on, following the track past Treowen mansion (6) until a bridleway sign on the right (5), opposite a small pond.



From this vantage point above the village you may be able to see a large mound in the fields on the other side of the road, just to the right of Dingestow Church. This is all that remains of Dingestow Castle, built by the English, but demolished by the Welsh on several occasions!

Take this path which crosses two fields before entering Mill Wood through a gateway (4). Follow the path downhill through the wood and turn right at the road (3) which leads into Dingestow Village (1).

Dilynwch y lôn tan i chi gyrraedd tro ar y chwith, i lawr llwybr fferm (20). Dilynwch y llwybr heibio dau fwthyn tan i chi gyrraedd adeiladau fferm ar y dde yn Nhreowen (7). Dilynwch y llwybr yn syth ymlaen heibio plasty Treowen (6) tan i chi gyrraedd llwybr ceffyl ar y dde (5), gyferbyn â llyn bychan.

O'r llecyn hwn uwchlaw'r pentref efallai y gwelwch dwmpath mawr yn y caeau yr ochr arall i'r ffordd, ychydig i'r dde o Eglwys Llanddingad. Dyma'r hyn sy'n weddill o Castell Llanddingad, a adeiladwyd gan y Saeson, ond a ddinistriwyd droeon gan y Cymry!



The front of Treowen in days gone by
Dilynwch y llwybr hwn sy'n croesi dau gae, trwy borth (4) i Mill Wood. Dilynwch y llwybr i lawr yr allt trwy'r goedwig a thro i'r dde i'r ffordd (3) sy'n arwain i bentref Llanddingad (1).

Tu blaen Treowen 'slawer dydd
(Nelson Museum and Local History Centre, Monmouth / Amgueddfa a Chanolfan Hanes Lleol Nelson, Trefynwy)

Take a close look at the black and white road sign on the left opposite the camp site. It's been here a good few years as it still directs traffic to the Station, which closed in 1955!



Edrychwrch yn ofalus ar yr arwydd du a gwyn ar y chwith gyferbyn â'r maes gwrsylla. Mae wedi bod yma ers blynnyddoedd lawer ac mae'n dal i gyfeirio traffig i'r orsaf, sydd wedi cau ers 1955!



Visit Wales / Croeso Cymru

The station was the focal point of the area. Everything arrived by train. Even cattle, destined for local farms, arrived in goods trains and were unloaded via a special cattle loading dock at the station.

For a black and white print version of this leaflet please contact adventa.


www.adventa.org.uk



Visit Wales / Croeso Cymru

Yr orsaf oedd canolbwyt yr ardal. Arferai popeth gyrraedd ar drên. Deuai hyd yn oed y gwartheg ar gyfer y ffermydd lleol ar drenau nwyddau a rhaid oedd defnyddio offer arbennig yn yr orsaf i'w dadlwytho.

Am fersiwn print du a gwyn o'r daflen hon cysylltwch os gwelwrch yn dda â adventa.
www.adventa.org.uk



The Countryside Code: Respect - Protect - Enjoy

- Be Safe - plan ahead and follow any signs
- Leave gates and property as you find them
- Protect plants and animals, and take your litter home
- Keep dogs under close control
- Consider other people
- This route is for walkers, cyclists and horse riders, please show consideration for other users.

Cod Cefn Gwlad: Darchu - Diogelu - Mwynhau

- Byddwch yn ddiogel – cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych yn eu cael nhw
- Diogelwch fywyd gwylt ac ewch â’ch sbwriel gartref
- Cadwch eich ci dan reolaeth
- Byddwch yn ystyriol o bobl eraill
- Mae'r llwybr hwn ar gyfer cerddwyr, beicwyr a marchogwyr, felly byddwch yn ystyriol o ddefnyddwyr eraill.

Additional Information

- Please ride with care on road sections, wear high visibility aids, and acknowledge consideration shown by drivers of motor vehicles.
- Keep to the line of bridleways as shown when crossing farmland and remember hooves can damage surfaces especially during winter months.
- There is limited water available along the route for horses.
- Landmarks and conditions change over time; use an OS map, compass or GPS. Mobile phone coverage may not be reliable along all sections of this trail.

Gwybodaeth Ychwanegol

- Cymerwch ofal wrth farchogaeth ar y ffordd, gwisgwrh rywbeth llachar, a chofiwch gydnabod gyrwyr ystyriol.
- Cadwch at y llwybrau marchogaeth wrth groesi tir fferm, a chofiwch y gall carnau ddifrodi arwynebau yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.
- Does dim llawer o lefydd parcio yn Llanddingad, (Cyf. Grid 457104) Arwyddost agosaf (1)
- Mae lle i gerbydau a threlars parcio mewn cilfan ar y lôn i'r de o Jingle Street (Cyf. Grid SO475105), ychydig oddi ar hen ffordd Trefynwy i Raglan ger tafarn y Somerset Arms.
- Mae lle i parcio ceir a faniau ceffylau ar Fferm Whitehill (Cyf. Grid 474113), am bris rhesymol o drefnu ymlaen llaw. Arwyddost agosaf (17)
- Mae tirnodau ac amodau yn newid gydag amser; defnyddiwr fap OS, cwmpawd neu GPS. Nid yw derbyniad ffonau symudol yn ddibynadwy ym mhobman ar y llwybr.

Visitor Information

For details of accommodation see:
www.visitwyevally.com

For details of cycle hire and repair, horse stabling, grazing, farriers, vets and much more see
www.treadandtrottrails.co.uk

For help in planning your visit call: Monmouth Visitor Information at the Shire Hall on 01600 775257.

For details of public transport visit:
www.traveline-cymru.info

Gwybodaeth i ymwlwyr

I gael manylion am lety ewch i: www.visitwyevally.com
I gael manylion am hurio a thrwsio beiciau, stablau ceffylau, tiroedd pori, ffarriers, milfeddygon a llawer mwy, ewch i www.treadandtrottrails.co.uk

Am help i gynnllunio’ch ymwlwriad ffoniwch: Canolfan Groeso Trefynwy yn Neuadd y Sir ar 01600 775257.

Am fanylion trafnidiaeth gyhoeddus ewch i:
www.traveline-cymru.info

Parking

There is limited car parking in Dingestow, (Grid ref 457104). Closest route marker (1)

Layby parking is available for vehicles and trailers on the minor road south of Jingle Street (Grid Ref SO475105), just off the old Monmouth to Raglan road near the Somerset Arms pub.

Parking can be prearranged for cars, trailers and horse boxes at Whitehill Farm for a small charge. Grid Ref 474113(www.whitehillfarmuk.com).

Closest route marker no (17).

Please ensure trailers and boxes are securely and considerately parked.

Parcio

Does dim llawer o lefydd parcio yn Llanddingad, (Cyf. Grid 457104) Arwyddost agosaf (1)

Mae lle i gerbydau a threlars parcio mewn cilfan ar y lôn i'r de o Jingle Street (Cyf. Grid SO475105), ychydig oddi ar hen ffordd Trefynwy i Raglan ger tafarn y Somerset Arms.

Mae lle i parcio ceir a faniau ceffylau ar Fferm Whitehill (Cyf. Grid 474113), am bris rhesymol o drefnu ymlaen llaw. Arwyddost agosaf (17)

Cofiwch parcio trelars a faniau ceffylau mewn ffordd ystyriol a diogel.

Disclaimer

Whilst all due care was taken in the preparation of the information contained in this leaflet, neither adventa, Monmouthshire County Council, nor their agents or servants accept any responsibility for any inaccuracies which might occur.

This leaflet has been funded by adventa, Monmouthshire's Rural Development Programme funded by the European Agricultural Fund for Rural Development, the Welsh Assembly Government and Monmouthshire County Council. For more information visit www.adventa.org.uk.

Ymwadiad

Er y gwnaed pob ymdrech i baratoi'r wybodaeth yn y daflen hon yn ofalus, nid yw adventa, Cyngor Sir Fynwy, na'u hasiantau na'r sawl sy'n gweithio iddynt yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw wallau a allai ymddangos.

Ariannwyd y daflen gan adventa, Rhaglen Datblygu Gwledig Sir Fynwy a ariannir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Fynwy. Am ragor o wybodaeth ewch i www.adventa.org.uk.



Credits:

Photos reproduced courtesy of Nelson Museum and Local History Centre, Monmouth, Shirley Hughes, Visit Wales and Studio 49

Diolchiadau:

Atgyrhyrwyd y ffotograffau drwy garedigrwydd Amgueddfa a Chanolfan Hanes Lleol Nelson, Trefynwy, Shirley Hughes, Croeso Cymru a Studio 49

© Published by adventa and Monmouthshire County Council 2011

© Cyhoeddwyd gan adventa a Chyngor Sir Fynwy 2011



Monmouthshire / Sir Fynwy

Dingestow Discoveries

**Darganfyddiadau
Dingestow**

Try our phone app:
treadandtrottrails.co.uk
Triwch ein rhaglen ffôn